COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl216

Amseru: Arferol

Teitl: Cyfraniad Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ariannol

Crynodeb Gweithredol:

Mae Unseen wedi gwneud cais am gyfraniad o £10,000 tuag at redeg y Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern genedlaethol.

Nid yw CHTh Dyfed-Powys wedi cyfrannu'n flaenorol, ac nid yw Gwent na De Cymru ychwaith wedi gwneud hynny, ac nid ydynt yn debygol o wneud hynny eleni. Cyfrannodd Gogledd Cymru £2,500 y llynedd ac eleni.

Mae Unseen yn adrodd bod gan Heddlu Dyfed-Powys ar gyfartaledd 8 achos o Gaethwasiaeth Fodern y flwyddyn dros y bedair blynedd diwethaf, gyda chyfartaledd o 29 dioddefydd dichonol.

Er bod y llinell yn cefnogi heddluoedd, dioddefwyr a sefydliadau, nid yw'r defnydd cyfyngedig gan ardal Dyfed-Powys yn cyfiawnhau blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi.

Argymhelliad:

Nad yw Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cefnogi'r cais am gyllid gan Unseen ar gyfer parhad y Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Mae gan y cais uchod fy nghymeradwyaeth.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/06/2021**